Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar

**London House**

**Aston Care Ltd**
**1-2 Cadle Mill Cottages**
**Cadle Mill**
**Abertawe**
**SA5 4PA**

**This document is also available in English**

**Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15 Hydref 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon e-bost at:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â London House

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Aston Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf ers ailgofrestru dan y Ddeddf **Rheoleiddio** ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Cartref gofal yw London House i oedolion sydd ag afiechydon meddwl swyddogaethol/organig ac y mae angen cymorth arnynt gyda gofal personol. Mae'r gwasanaeth yng ngogledd-ddwyrain Abertawe. Eiddo mawr, dau lawr ar wahân yw'r adeilad. Mae ganddo ei dir ei hun gydag ardal barcio ac ardaloedd awyr agored diogel y mae'n eu rhannu â chartref gofal arall y darparwr. Mae gan bobl gynlluniau personol wedi'u diweddaru sy'n rhoi trosolwg da o anghenion pobl i'r gweithwyr gofal. Anogir pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol yn ogystal â gweithgareddau grŵp yn y gwasanaeth. Ymddengys fod pobl yn gartrefol ac yn gysurus mewn amgylchedd sy'n gartrefol ac yn drwsiadus, ond mae angen gwelliannau i ddangos tystiolaeth bod gwiriadau cynnal a chadw ar waith fel mater o drefn. Caiff pobl eu cefnogi gan weithwyr gofal dynodedig sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi gan dîm rheoli sy'n weladwy yn y gwasanaeth yn ddyddiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn fynych ac mae ganddo drosolwg da o'r gwasanaeth.

## Llesiant

Gwrandewir ar bobl a chânt eu trin ag urddas a pharch. Gwnaethom arsylwi ar weithwyr gofal yn cefnogi pobl mewn ffordd gyfeillgar gyda chyfeillgarwch da. Roedd y ffeiliau gofal a welwyd yn nodi bod pobl yn cymryd rhan wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol. Gwelsom fod cynlluniau personol wedi'u diweddaru ac yn adlewyrchiad da o anghenion cyfredol pobl. Roedd y bobl y siaradwyd â hwy yn canmol y gwasanaeth a ddarperir iddyn nhw a'r tîm gofal.

Mae iechyd corfforol a meddwl pobl, a’u llesiant emosiynol, yn cael eu hyrwyddo. Caiff pobl eu cefnogi i gael mynediad i'r gymuned ac mae ganddynt raglen o weithgareddau amrywiol ar gael iddynt yn y gwasanaeth. Mae gweithdrefnau da ar waith ar gyfer cofnodi, storio ac archwilio meddyginiaeth yn y gwasanaeth. Caiff pobl eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n ceisio cymorth meddygol yn gyflym i'w cefnogi'n briodol yn ôl yr angen.

Caiff pobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r holl weithwyr gofal wedi derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol ac roedd y rhai y gwnaethom siarad â hwy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau er mwyn adrodd am unrhyw bryderon. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith sydd wedi cael eu hadolygu, ac mae hyn yn cynnwys y polisi diogelu, y mae angen ei adolygu ymhellach i gynnwys gweithdrefnau diogelu Cymru. Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar waith – ac maent wedi’u diweddaru – i bobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau am eu llety, eu gofal a'u cymorth.

Mae pobl yn byw mewn cartref sy'n ddiogel ac yn gartrefol. Mae'r gwasanaeth yn ddiogel ac mae mynediad â chod allwedd electronig i fynd i'r safle. Mae yna broses lofnodi wrth gyrraedd i ddod i'r adeilad a'i adael. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal yn dda. Fodd bynnag, mae angen gwelliannau i sicrhau bod dogfennau wedi'u diweddaru i ddangos tystiolaeth o hyn. Mae'r gwasanaeth yn gartrefol ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u personoleiddio i roi ymdeimlad o berthyn i bobl.

Caiff pobl eu cefnogi i gynnal perthnasau. Mae'r gwasanaeth yn dilyn canllawiau cyfredol i hyrwyddo ymweliadau ac mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith. Gwelwyd bod gan bobl berthnasau da ag aelodau staff ac eraill yn y gwasanaeth a bod cofnodion cyfathrebu da ynghylch aelodau'r teulu.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn rhan o gynllunio eu gofal i sicrhau eu bod yn derbyn yr ansawdd gofal a chymorth y mae ei angen arnynt. Gwnaethom edrych ar ddwy ffeil ofal a gweld bod pobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu eu cynlluniau personol a'u bod yn rhan o gyfarfodydd adolygu a chynnydd rheolaidd lle bynnag y bo'n bosib. Mae cynlluniau personol yn rhoi darlun clir o'r hyn sy'n bwysig i unigolyn a sut orau i'w gefnogi i gyflawni ei nodau personol.
Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith i gyd-fynd â'r cynlluniau hyn.  Caiff cofnodion o’r cymorth a roddir eu stori'n electronig, sy'n fanwl ac sy'n cynnwys diweddariadau ar iechyd a phwysau pobl er mwyn eu monitro. Gwelsom fod pobl yn cael eu cefnogi i gael mynediad i’r gymuned yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn ddyddiol yn y gwasanaeth.

Mae yna systemau diogelwch ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth ac er mwyn cynnal iechyd pobl. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo a bod pob unigolyn yn derbyn un silff bersonol ar gyfer storio ei feddyginiaeth. Gwelwyd cofnodion gwiriadau tymheredd ddwywaith y dydd i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Caiff Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth eu cwblhau'n briodol, gan gynnwys llofnodion staff gofal a oedd yn bresennol. Mae yna brosesau da ar waith ar gyfer archebu, gwaredu ac archwilio meddyginiaeth yn y gwasanaeth sy'n lleihau'r risg o gamgymeriad. Mae'r staff sy'n helpu pobl gyda meddyginiaeth wedi'u hyfforddi a phenderfynwyd eu bod yn gymwys i wneud hynny. Mae llawer o'r gweithwyr gofal yn y gwasanaeth wedi bod yn eu swyddi am sawl blwyddyn ac yn adnabod pobl yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i nodi unrhyw waethygu mewn iechyd ac i geisio cymorth ychwanegol pan fo'i angen. Gwelsom apwyntiadau meddygol yn cael eu cofnodi'n glir mewn ffeiliau gofal gydag unrhyw gamau gweithredol dilynol yn cael eu nodi.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o groes-heintio. Oherwydd y pandemig COVID-19, cyn mynd i'r eiddo, roedd angen i ni ddangos canlyniad prawf llif unffordd negatif, diheintio ein dwylo, a gwisgo cyfarpar diogelu personol. Gwelsom yr holl weithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol yn yr adeilad. Mae'r ardaloedd cymudol ac ystafelloedd ymolchi yn lân a gwelsom staff domestig yn brysur yn glanhau yn ystod yr arolygiad. Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan mewn profion wythnosol lluosog i leihau'r risg a berir gan COVID-19 i bobl.  Mae'r gwasanaeth yn dilyn y canllawiau diweddaredig gan y llywodraeth ar gyfer ymweld a lleihau'r risg yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth pobl yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar sy'n hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch. Mae London House yn rhannu ei leoliad gyda gwasanaeth arall sy'n eiddo i'r darparwr. Mae yna batio mawr wedi'i ddiogelu a rennir o flaen yr adeilad gydag ardaloedd eistedd a chanolfan weithgareddau a rennir yn y cefn. Mae modd parcio o flaen yr adeilad. Mae'r eiddo gyfagos â chaeau, lle gall pobl fwynhau rhyngweithio ag anifeiliaid. Gwnaethom edrych o amgylch yr adeilad a gweld bod yr ardaloedd cymunol yn gartrefol, yn gyfforddus ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom fod gan bobl eitemau wedi'u personoleiddio yn eu hystafelloedd gwely. Dywedodd un unigolyn ei fod yn hoffi'r lliw ar ei waliau a'i fod yn hapus gyda'r golwg oedd arnynt ar ôl gallu dewis y lliw.

Mae gan y darparwr weithdrefnau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch pobl. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod tystiolaeth ysgrifenedig o hyn. Gwelsom nad oedd y dogfennau ar gyfer gwiriadau amgylcheddol dyddiol wedi cael eu cynnal yn y gwasanaeth ers mis Mai. Er gwaethaf hyn, nid oedd unrhyw feysydd o bryder yn yr eiddo oherwydd ymddengys fod yr holl ardaloedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda. Esboniodd y rheolwr fod yr holl staff yn gyfrifol am gynnal a chadw'r amgylchedd ac yr adroddir am unrhyw broblemau wrth iddynt godi. Gwnaeth gydnabod bod angen ailgyflwyno'r dogfennau er tystiolaeth.  Gwelsom fod gwiriadau diogelwch tân gorfodol yn cael eu cynnal yn fynych a bod y tystysgrifau ar gyfer nwy, trydan a chyfarpar trydanol i gyd wedi'u diweddaru. Y sgôr hylendid bwyd gyfredol yn y gwasanaeth yw 4, sy'n dda, ond cafwyd yr arolygiad diwethaf gan dîm iechyd yr amgylchedd beth amser yn ôl ac mae'r gwasanaeth yn gobeithio y bydd hyn yn codi i 5, sef da iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff pobl eu cefnogi gan dîm gofal dynodedig sydd wedi cael eu recriwtio'n ddiogel ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél dau aelod o staff a gweld bod gwiriadau cyn cyflogaeth a recriwtio priodol ar waith. Mae geirdaon a gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn y ffeil. Gwelwyd y metrics hyfforddi a chanfuom fod bron holl ofynion hyfforddiant gorfodol y darparwr yn gyfredol. Mae hyn yn cynnwys rheoli heintiau, diogelu, iechyd a diogelwch, ymwybyddiaeth o dân, ac eraill. Gwelsom staff yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd ac arfarniad blynyddol. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â hwy'n canmol yr hyfforddiant a'r cymorth maent yn eu dderbyn ar y cyfan ac roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol: "*mae'r rheolwyr yn gyfeillgar ac yn gefnogol iawn*" ac "*mae hyfforddiant yma'n dda, ond byddai mwy o hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fuddiol*". Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym fod hyfforddiant wyneb yn wyneb yn rhywbeth mae'r gwasanaeth yn gobeithio ei ddarparu'n fwy a chyfyngiadau'r pandemig bellach yn llacio.

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol y gwasanaeth drwy waith sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom yr adroddiad chwe-misol diweddar ar ansawdd y gofal. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adborth gan bobl a staff yn y gwasanaeth. Roedd yr adroddiad yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau eraill yn y dyfodol. Gwnaethom nodi bod y ddau adroddiad a welsom yn debyg iawn a bod llawer o'r dyfyniadau wedi'u dyblygu. Dylai'r adroddiad ar ansawdd y gofal gynnwys gwybodaeth o'r chwe mis blaenorol i ddangos cynnydd y gwasanaeth. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu. Er hynny, mae angen i'r polisi diogelu gael ei ddiweddaru yn unol â'r gweithdrefnau diogelu newydd i Gymru. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth wedi cael ei adolygu ac mae'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drosolwg o'r trefniadau ariannol ac mae'n buddsoddi yn y gwasanaeth. Gwnaeth y rheolwr ddangos i ni fod carped newydd wedi cael ei osod lan lofft yn yr eiddo. Roedd y celfi awyr agored hefyd wedi cael eu disodli yn ystod y misoedd diwethaf er mwyn i bobl fod yn fwy cysurus wrth ymweld y tu allan. Yn gyffredinol, canfuom fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda throsolwg da i gadw'r cartref mewn cyflwr da. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym fod lefelau staffio'n dda a gwelsom rotas gwaith i'r staff a oedd yn adlewyrchu hyn. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi mewn canolfan weithgareddau fawr sy'n cael ei rhannu rhwng y ddau wasanaeth ac sy'n llawn deunyddiau celf a chrefft, gemau bwrdd, jig-sos, teledu sgrin fawr a DVDs. Gwelsom y ganolfan yn cael ei defnyddio gan bobl a gwnaethom roi clod iddynt am y gwaith celf a oedd yn addurno'r ystafell gyfan. Mae cydlynydd gweithgareddau dynodedig hefyd yn gweithio rhwng ddau leoliad y gwasanaeth.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 44 | Nid oedd gwiriadau iechyd a diogelwch arferol o amgylch yr safle'n cael eu cynnal fel mater o drefn. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/12/2021